

# CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG

## 2020/21 - 2022/23

### 1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn ganllaw strategol i gynlluniau gwariant y Cyngor dros y tair blynedd nesaf er mwyn cefnogi blaenoriaethau'r Cyngor o fewn cyd-destun cyllideb flynyddol gytbwys; mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig presennol ar gyfer blynyddoedd 2020/21 i 2022/23.
- 1.2 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn rhagdybio sefyllfa ariannol y Cyngor yn y dyfodol yn seiliedig ar nifer o dybiaethau, gan nodi cyllidebau refeniw a chyfalaf dangosol ac yn rhagamcanu lefel debygol treth y cyngor a balansau'r Cyngor.
- 1.3 Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn cael eu hariannu gan Grantiau Llywodraeth Cymru'n bennaf, gyda chyllid ychwanegol yn cael ei godi'n lleol gan Dreth y Cyngor a drwy godi am wasanaethau. Dros y deng mlynedd diwethaf, bu'r Cyngor yn wynebu toriadau i'r gyllideb ar raddfa na phrofwyd erioed o'r blaen ganddo, ac mae'r Cyngor yn dal i wneud penderfyniadau anodd o ran y modd gorau o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau. Mae effaith gyfunol y penderfyniadau anodd hyn yn golygu bod y gwasanaethau a ddarperir yn newid. Efallai na fydd rhai gwasanaethau a gymerwyd yn ganiataol gan bobl ddeng mlynedd yn ôl ar gael mwyach, gallant ddibynnu ar brawf modd a/neu orfod cael eu cyflenwi mewn modd hollol wahanol.
- 1.4 Mae adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn parhau i fod yn hanfodol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol tymor canolig y Cyngor. Er mwyn osgoi toriadau i wasanaethau, mae'r Cyngor yn parhau i archwilio opsiynau amgen o ddarparu gwasanaethau er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau'n parhau i fod yn addas at y diben yng nghyd-destun cyllidebau llai. Gallai hyn olygu ailymweld â disgwyliadau trigolion er mwyn blaenoriaethu gwasanaethau i'r rhai mwyaf diamddiffyn. Mae hefyd yn gyfle i weithio gyda phartneriaid ac awdurdodau cyfagos i gynnal a gwella canlyniadau yn erbyn cefnlen o ostyngiadau mewn gwariant cyhoeddus

### 2. Egwyddorion sy'n arwain ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig

- 2.1. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cydnabod na fydd y lefel gyffredinol o gyllid gan Lywodraeth Cymru yn cynyddu ac y bydd o bosibl yn parhau i ostwng o 2021/22. Mae'n nodi materion cyffredinol a fydd yn effeithio ar sefyllfa ariannol y Cyngor yn 2020/21 a thros y tymor canolig. Mae'n amlygu'r paramedrau ariannol ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf ac yn ystyried y canlynol:

- Cynllun y Cyngor
- Y Cyd-destun Ariannol Mewnol
- Ffactorau Economaidd Allanol
- Ariannu'r Rhaglen Gyfalaf

- 2.2 Os yw'r Cyngor yn mynd i gadw at ei flaenoriaethau a chynnal sefydlogrwydd ariannol yn ystod y tymor canolig, bydd rhaid parhau i wneud arbedion effeithlonrwydd a chynhyrchu incwm ychwanegol.

### 3. Cynllun y Cyngor

- 3.1 Cynllun y Cyngor yw'r cynllun uchaf sy'n helpu'r Cyngor i ganolbwyntio ei adnoddau a gyrru gwelliant. Mae'n nodi sut y byddwn yn canolbwyntio ein hegri a'n hadnoddau sy'n prinhau a sut y byddwn yn mesur ein perfformiad. Cymeradwywyd Cynllun y Cyngor 2019-22 gyntaf yn 2017 ac mae'n nodi pedwar amcan ar ddeg ar draws pedair thema, sef yr Economi, Pobl, Lle a Threfniadaeth. Ar ddiwedd 2018, fe gafodd y cynllun ei adolygu a datblygwyd cyfres lai o flaenoriaethau yn ystod y flwyddyn, ag iddynt fwy o ffocws, yn unol ag amcanion y Cyngor o ran lles. Y blaenoriaethau hyn yw:

- Datblygu'r Economi
- Sicrhau cyngor modern a gwydn
- Sicrhau bod pawb yn ddiogel: mae hyn yn hawl sylfaenol i bawb
- Gwella addysg uwchradd: dyma'r allwedd i'n dyfodol
- Gwella'r amgylchedd: mae'r rhain yn wasanaethau cymunedol lleol y mae pawb yn gweld eu bod yn bwysig
- Hyrwyddo iechyd a lles da: dim ond trwy wneud hyn y gallwn geisio lleihau'r galw bythol gynyddol mewn gofal cymdeithasol

- 3.2 Ochr yn ochr â datblygu'r blaenoriaethau hyn, mae'r Cyngor wedi rhoi uwchstrwythur newydd yn ei le o 1 Ebrill 2019 ymlaen. Mae'r Prif Swyddogion yn arwain ar y blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn ac yn sicrhau eu bod yn berthnasol o ran y gwasanaethau sy'n cael eu cyflenwi a'u bod yn eu llywio, tra bo ein gwasanaethau cymorth allweddol wrth wraidd y sefydliad ac yn canolbwyntio ar alluogi cyflawni'r blaenoriaethau hyn.

- 3.3 Yr **egwyddorion** a ystyrir wrth gynllunio a darparu'r holl wasanaethau yw:

- Edrych ar **atal** problemau yn gyntaf - atal problemau rhag codi a pheidio â chreu problemau newydd
- Blaenoriaethu'r bobl fwyaf **diamddiffyn** - lleihau amrywiadau amhriodol mewn canlyniadau drwy ddulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Cynllunio ar gyfer y **tymor hir** – diogelu ein hadnoddau naturiol
- Ymgynghori a **chynnwys** pobl leol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau
- **Integreiddio a chydweithio** – gyda chydweithwyr; gyda phartneriaid
- **Y Gymraeg** – gwasanaethau a gwybodaeth ar gael yr un mor hawdd yn y Gymraeg a'r Saesneg


- 3.4 Mae'r weledigaeth, y pwrpas a'r egwyddorion yn nodi sut y byddwn yn ceisio cynllunio a darparu gwasanaethau a bydd angen ystyried sut y byddan nhw'n cydbwysu yn erbyn ei gilydd mewn gwahanol feysydd gwasanaeth.

- 3.5 Cynllun y Cyngor yw'r modd y mae'r Cyngor yn cytuno ar ei amcanion lles, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- 3.6 Mae'r themâu hefyd yn adlewyrchu pedair agwedd datblygu cynaliadwy fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru): economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

#### 4. Y Cyd-destun Ariannol Mewnol

- 4.1 Yn 2019/20 roedd gofyniad cyllideb refeniw net y Cyngor, i'w dalu gan dalwyr treth y cyngor, yn £61.6 miliwn (net o grantiau'r llywodraeth, rhenti, llog a ffioedd a thaliadau).
- 4.2 Roedd cyfrifiad sylfaen treth y Cyngor ar gyfer 2019/20 yn 53,421 o eiddo cyfatebol i fand D. Mae'r sylfaen dreth gyffredinol wedi'i chreu o'r un cyfrifiadau ar gyfer pob un o'r 34 ardal gymunedol. I gyfrifo'r sylfaen dreth ar gyfer ardal, addasir nifer yr anheddau ym mhob band treth gyngor i ystyried unrhyw ostyngiadau, premiymau neu eithriadau.
- 4.4 Gwariant gros y Cyngor wedi'i gyllidebu ar gyfer 2019/20 yw £389.88 miliwn. Cefnogir y gwariant hwn gan rent, ffioedd a thaliadau, yn ogystal â grant fformiwla'r llywodraeth a threthdalwyr y cyngor fel y dangosir isod yn y siart:



#### 5. Ffactorau Allanol

- 5.1 Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor wedi'i osod yng nghyd-destun effaith yr economi cenedlaethol, twf y boblogaeth a thueddiadau demograffig a all achosi cynnydd mewn galw neu wariant mewn meysydd fel addysg, tai, gofal cymdeithasol a gwaredu gwastraff.
- 5.2 Chwyddiant
- 5.2.1 Mae chwyddiant yn elfen bwysig wrth lunio'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig; mae prisiau nwyddau a gwasanaethau yn dueddol o gynyddu yn unol â chyfradd chwyddiant fel y mesurir gan naill ai'r Mynegai Prisiau Manwerthu neu'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

- 5.2.2 Cododd chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr 1.3% yn y flwyddyn hyd at Ragfyr 2019 sy'n is na tharged Banc Lloegr o 2%. Mae Adroddiad Chwyddiant mis Rhagfyr Banc Lloegr yn datgan yr amcanestynir y bydd chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn aros o dan y targed o 2% drwy gydol blwyddyn ariannol 2020 ac am y rhan helaeth o 2021.
- 5.2.3 Polisi presennol y Cyngor yw cynyddu ffioedd fel eu bod o leiaf yn unol â chwyddiant, os nad yn uwch, er mwyn gallu cynyddu cyfran y gwasanaeth sy'n cael ei ariannu gan y defnyddwyr yn hytrach na thrwy dreth y cyngor neu renti. Yn unol â Pholisi Adennill Costau'r Cyngor, anogir swyddogion, os oes modd, i godi tâl sy'n cwrdd â chost economaidd darparu'r gwasanaeth. Wrth bennu cyllidebau, disgwylir i swyddogion gynhyrchu cymaint o incwm â phosibl yn y farchnad ac, drwy ystyried y ffioedd a godir gan ein cystadleuwyr.
- 5.3 Cyfraddau Llog
- 5.3.1 Yn ei gyfarfod ar 29 Ionawr 2020, barnodd y Pwyllgor Polisi Ariannol bod y safbwynt presennol o ran polisi ariannol yn briodol. Pleidleisiodd y Pwyllgor i gynnal y Gyfradd Banc ar 0.75%.
- 5.3.2 Mae amcanestyniadau'r Pwyllgor Polisi Ariannol yn amodol ar y dybiaeth bod symud uniongyrchol ond trefnus i gytundeb masnach rydd ddofn gyda'r UE ar 1 Ionawr. Mae amcanestyniadau'r Pwyllgor Polisi Ariannol hefyd yn amodol ar gynlluniau treth a gwariant y Llywodraeth. Roedd Cylch Gwariant 2019 wedi cynyddu gwariant wedi'i gynllunio, y disgwyliwyd iddo godi GDP tua 0.4% dros y cyfnod rhagolygol. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi y cynhelir Cyllideb 2020 ar 11 Mawrth 2020. Mae'r amcanestyniadau hefyd yn amodol ar lwybr y farchnad o ran cyfraddau llog, sy'n dirywio ychydig yn y tymor agos ac yn diweddu'r cyfnod rhagolygol ar tua 0.5%. Mae'r llwybr hyblyg hwnnw o ran polisi ariannol hefyd yn cefnogi'r adferiad o ran twf GDP.
- 5.4 Poblogaeth
- 5.4.1 Defnyddir amcanestyniadau poblogaeth i helpu awdurdodau lleol i gynllunio ar gyfer y dyfodol (er enghraifft, cynllunio tai, ysgolion, meithrinfeydd a gwasanaethau cymdeithasol), ac fe'i defnyddir i helpu i ddsbarthu cyllid y llywodraeth. Nid ydynt yn ystyried unrhyw ddatblygiadau gwleidyddol neu economaidd yn y dyfodol. Mae'r amcanestyniadau'n edrych ar yr hyn fu'n digwydd i'r boblogaeth mewn blynyddoedd diweddar ac yn llunio amcanestyniadau i'r dyfodol.
- 5.4.2 Yn gyffredinol, mae amcanestyniadau poblogaeth yn cael eu diweddarau bob rhyw dair blynedd a chyhoeddwyd y set olaf o amcanestyniadau, yn seiliedig ar amcanestyniadau 2014, yn 2016. Roedd Prif Ystadegydd Cymru wedi cynllunio i gyhoeddi'r set ddiweddaraf o amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol (yn seiliedig ar 2016) ar 31 Hydref 2019. Fodd bynnag, ar 24 Hydref 2019, cyhoeddwyd y byddid yn gohirio'r cyhoeddiad o ganlyniad i ddata newydd a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol (ONS) a oedd yn dangos tuedd wahanol iawn i ddata blaenorol, ynghyd â rhai materion a godwyd yn ystod gwaith sicrwydd ansawdd ar yr amcanestyniadau yr oedd angen gwneud rhagor o waith arnynt i'w goresgyn.

5.4.3 Roedd yr amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol a oedd yn seiliedig ar 2018 (ar gyfer y DU a'r pedair gwlad) a gyhoeddwyd gan yr ONS, yn dangos dirywiad amcanestynedig ym mhoblogaeth Cymru dros y tymor hwy.


5.4.4 Mae'r amcangyfrifon canol blwyddyn (ACB) o'r boblogaeth a gyhoeddwyd yn 2018 yn dangos bod poblogaeth gyffredinol Cymru yn 3,138,631, sy'n gynydd o 13,847 (0.44%) o gymharu â'r amcanestyniad ar gyfer 2018 sy'n seiliedig ar 2014. Mae'r cynnydd mwyaf yng Nghasnewydd (3.07%) a Bro Morgannwg (3.03%) ac mae'r gostyngiadau mwyaf yng Ngheredigion (4.37%) a Wrecsam (2.17%).



	Canol Blwyddyn 2018	Amcanestyniadau 2018 yn Seiliedig ar 2014	Newid	%	Amcanestyniadau 2018 yn Seiliedig ar 2019	Newid
Wrecsam	136,126	139,143	-3,017	-2.17	139,751	-3,625
Cymru Gyfan	3,138,631	3,124,784	13,847	0.44	3,133,336	5,295

5.4.5 Mae demograffeg y Fwrdeistref Sirol yn cael effaith uniongyrchol ar nifer o wasanaethau'r Cyngor, gan gynnwys niferoedd disgyblion, proffil oedran y boblogaeth a nifer yr eiddo; tra bo hefyd yn effeithio'r cyllid y mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru. Gan nad oedd yr ymagwedd flaenorol yr argymhellwyd ei defnyddio, sef yr amcanestyniadau poblogaeth yn seiliedig ar 2017, yn opsiwn mwyach ar gyfer cyfrifo Setliad Refeniw Llywodraeth Leol 2020-21, cytunodd yr Is-grŵp Dosbarthu i argymhell i LIC ddefnyddio'r Amcanestyniadau Poblogaeth Canol-blwyddyn yn setliad 2020-21, dros gyfnod o ddwy flynedd.

5.5 Proffil y boblogaeth dros yr 8 mlynedd diwethaf.

5.5.1 Mae'r amcanestyniadau canol-blwyddyn a gyhoeddwyd ar gyfer Wrecsam rhwng 2010 a 2018 yn dangos cynnydd cymedrol yn y boblogaeth 0 i 15 oed (3.37%), lefel debyg o ostyngiad yn y boblogaeth rhwng 16 a 64 (-3.78%) ond cynnydd llawer mwy yn y boblogaeth 65 oed a throsodd (16.29%).





Ffynhonnell Ddata: StatsCymru

## 5.6 Nifer y Disgyblion

5.6.1 Yn Ionawr 2019, roedd cyfanswm poblogaeth ysgolion Wrecsam (heb gynnwys disgyblion meithrin) yn 17,368 o ddisgyblion. Mae'r rhagamcanion disgyblion diweddaraf a baratowyd gan yr Adran Addysg yn nodi ei bod yn debygol na fydd fawr o wahaniaeth yn y niferoedd. Ar gyfer y cyfnod 2020 i 2024 mae'n debygol y bydd nifer y disgyblion ysgol yn lleihau 0.34% (59), gweler y tabl isod, Rhagolygon Disgyblion 2020 – 2024.


### Rhagolygon disgyblion, 2020 – 2024

Math o Ysgol	Nifer y Disgyblion					
	Gwir Ionawr 2019	Ionawr 2020	Ionawr 2021	Amcanestyniadau* Ionawr 2022	Ionawr 2023	Ionawr 2024
<b>Cynradd</b>	11,276	11,093	10,933	10,866	10,775	10,669
<b>Uwchradd</b>	6,092	6,337	6,391	6,525	6,610	6,702
<b>POB UN</b>	17,368	17,430	17,324	17,411	17,385	17,371

\* Nid yw'r amcanestyniadau yn cynnwys disgyblion meithrin, Unedau AAA, Twf Cynllun Datblygu Lleol (a ragwelir i fod yn 7.7%) neu unrhyw lwfans ar gyfer mewnfudo.

## 5.7 Gofal Cymdeithasol Plant

5.7.1 Mae'r tabl isod yn dangos y twf amcanestynedig yn seiliedig ar y niferoedd fu'n cysylltu â gofal cymdeithasol plant, h.y. y Pwynt Mynediad Sengl (SPOA) ers 2011.



## 6. Cylch Gwariant 2019

6.1 Ar 4 Medi 2019, cyhoeddodd y Canghellor, Sajid Javid, ei gylch gwariant mewn datganiad i'r Tŷ Cyffredin. O ganlyniad i'r ansicrwydd parhaus yng nghyswllt y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, cyflwynodd y Canghellor gyllideb am flwyddyn, gydag adolygiad dros fwy na blwyddyn wedi'i gynllunio ar gyfer 2020.

6.2 Agorodd y Canghellor ei ddatganiad drwy ddatgan y byddai'n troi dalen newydd o ran cyni cyllidol, ac y byddai ei gynlluniau'n cynyddu gwariant o ddydd i ddydd ar y gyfradd gyflymaf mewn 15 mlynedd. Dyma'r prif bwyntiau a amlinellwyd yn ei araith:

### *Gwasanaethau Cyhoeddus*

#### *Plismona a Throsedd*

- Cyllid a gadarnhawyd ar gyfer yr heddlu, cynnydd 6.3% mewn termau real yng nghyllidebau'r Swyddfa Gartref, £715m i ariannu 20,000 o swyddogion heddlu newydd.
- Cyhoeddodd £30m ychwanegol i fynd i'r afael â cham-fanteisio ar blant ar-lein.
- Cyhoeddodd hefyd gynnydd o 5% ar gyfer y Weinyddiaeth Gyfiawnder ynghyd â chyllid ar gyfer 10,000 o leoedd newydd mewn carchardai yn ôl addewid y Prif Weinidog.

#### *Iechyd, gofal cymdeithasol a thai*

- Ailymrwymwyd i wariant GIG blaenorol ond cyhoeddwyd cynnydd o £6.2bn yng nghyllid y GIG y flwyddyn nesaf.
- Cadarnhawyd £2bn o gyllid cyfalaf newydd ar gyfer y GIG – yn dechrau gydag uwchraddio 20 ysbyty yn 2019/20 a £250m ar gyfer technolegau Deallusrwydd Artiffisial sy'n torri tir newydd.

- Cynnydd o £1.5bn mewn gwariant ar ofal cymdeithasol (y mae'n rhaid i £0.5bn ddod o gynnydd Treth y Cyngor yn Lloegr).
- Cyllid newydd o £54m i leihau digartrefedd a chysgu allan, sy'n dod i gyfanswm cyllid o £422m.

### Addysg

- Cadarnhawyd £7.1bn mewn cyllid addysg hyd at 2022-23.
- Mae'r cynnydd mewn cyllid yn golygu y bydd pob ysgol uwchradd yn cael dyraniad o o leiaf £5,000 y disgybl erbyn 2020-21, a £4,000 y disgybl ar gyfer bob ysgol gynradd erbyn 2021-22.
- Bydd Addysg Bellach yn cael £400m ychwanegol yn 2020/21.
- Bydd cynnydd o £66m mewn gwariant ar addysg blynnyddoedd cynnar.
- Dywedodd y bydd y llywodraeth yn datblygu cynlluniau ar gyfer cronfa fuddsoddi ieuencid i dalu am ragor o ganolfannau ieuencid.

### Yr Amgylchedd

- Dywedodd y Canghellor y bydd £432m o gyllid ychwanegol ar gyfer Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i fynd i'r afael â materion o ran yr hinsawdd.
- Clustnodir arian ar gyfer materion o ran yr hinsawdd pan fydd y llywodraeth yn cyhoeddi adolygiad o'r strategaeth seilwaith yn 2019/20.

### ***Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth***

- Cadarnhawyd cyllid o £3.6 biliwn ar gyfer y gronfa Trefi Newydd – a fydd yn darparu ton o fuddsoddiad i wahanol ranbarthau a lleoedd.
- £13bn ar gyfer trafndiaeth yng ngogledd Lloegr (Ilwybr Manceinion i Leeds o Reilffordd Pwerty Gogledd Lloegr)...rhagor o fanylion i ddod yn yr hydref.
- £200m ar gyfer trafndiaeth bws ledled y wlad (treialu bysiau isel iawn eu hallyriadau ynghyd â gwasanaethau newydd ar alwad i ymateb i anghenion teithwyr mewn amser real).

### ***Polisi Rhanbarthol a Datganoli***

O gymharu â 2019-20, mae'r setliadau RDEL ar gyfer 2020-21 yn darparu:

- Cynnydd ar gyfer RDEL Llywodraeth Cymru (cyllidebau refeniw) o £0.6 biliwn, twf o 2.3% mewn termau real.
- Cynnydd ar gyfer RDEL Llywodraeth yr Alban o £1.1 biliwn, neu dwf o 2.1% mewn termau real.
- Cynnydd ar gyfer Gweinyddiaeth Gogledd Iwerddon (RDEL) o £0.4 biliwn, neu dwf o 1.8% mewn termau real.

### ***Goblygiadau o ran Cyllideb Llywodraeth Cymru (LIC)***

Mae £600 miliwn ychwanegol i gyllideb LIC yn gynnydd o ran arian parod o 4%. Amcangyfrifir for y cyllid canlyniadol ar gyfer y cyhoeddiad addysg a chyllid gofal cymdeithasol yn £151m a £56m yn y drefn honno.



## 7. Her Ariannol Hanesyddol

- 7.1 Dros y naw mlynedd ddiwethaf, pontiwyd bwllch cyllid y Cyngor (y gwahaniaeth rhwng gwariant a chyllid net) trwy wneud yr arbedion effeithlonrwydd/toriadau a ganlyn i'r gyllideb.

### Arbedion Blynnyddol/Toriadau i'r Gyllideb

	2011/12 £'000	2012/13 £'000	2013/14 £'000	2014/15 £'000	2015/16 £'000	2016/17 £'000	2017/18 £'000	2018/19 £'000	2019/20 £'000
<b>Gwariant Net</b>	216,068	215,434	233,334	238,111	232,240	229,073	229,461	237,659	242,659
<b>Cyllid</b>	208,608	211,890	230,048	227,333	223,120	224,069	225,324	232,872	236,853
<b>Toriadau i'r Gyllideb</b>	-7,460	-3,544	-3,286	-10,778	-9,120	-5,004	-4,137	-4,787	-5,806

## 8. Yr Her Ariannol Tymor Canolig

- 8.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i baratoi gan ddwyn ymlaen y Gyllideb Ariannol Gyfyngedig bresennol, gan ddefnyddio model ariannol manwl gydag addasiad ar gyfer chwyddiant, ac effaith lawn penderfyniadau a newidiadau gweithredol sy'n hysbys. Mae'r rhagolwg hwn yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf oedd ar gael adeg y drafftio, ond mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn gymhleth a dynamig ac yn destun newid.
- 8.2 Amlygodd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gymeradwywyd ddiwethaf gan y Cyngor ar 20 Chwefror 2019 yr angen i wneud arbedion o tua £10m ar gyfer y cyfnod 2020/22. Roedd hyn yn tybio newid o 0% mewn cyllid grant, cynnydd o 5.5% yn y dreth gyngor (ond dim cynnydd yn y sylfaen dreth), chwyddiant cyflog o 2.5%, a chwyddiant cyffredinol o 2%, ac ymrwymadau anochel hysbys ar gyfer blynnyddoedd ariannol 2020/21 a 2021/22 yn y drefn honno.
- 8.3 Cyhoeddwyd y setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol dros dro ar 16 Rhagfyr 2019 a nododd gynnydd mewn cymorth grant (ar ôl ystyried trosglwyddiadau grantiau i'r setliad) ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 o 3.5% i'r Cyngor o gymharu â chynnydd cyfartalog o 4.3% ar sail Cymru gyfan. Ni chyhoeddwyd unrhyw ffigyrau dangosol ar gyfer blynnyddoedd ariannol 2021/22 a 2022/23.
- 8.4 Cyhoeddir y setliad terfynol ar 25 Chwefror 2020.
- 8.5 Er bod cyllid grant LIC ar gyfer 2020/21 yn welliant ar hynny a gynlluniwyd, mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd y cyllid y bydd yn ei dderbyn gan LIC yn aros yr un fath ar gyfer y cyfnod 2021/23. Gan y bydd costau'r Cyngor yn cynyddu o ganlyniad i ddyfarniadau cyflog, chwyddiant a phwysau arall ac o ganlyniad i'r galw cynyddol am ein gwasanaethau, byddir yn parhau i ymgyrchu i wneud rhagor o newidiadau/toriadau i'r gyllideb.

**Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2020/21 – 2022/23**

	2019/20 £'000	2020/21 £'000	2021/22 £'000	2022/23 £'000
Council Tax Income	61,601	65,949	70,532	75,435
Revenue Support Grant (RSG)	177,501 #	184,296	184,296	184,296
<b>Total Funding</b>	<b>239,102</b>	<b>250,245</b>	<b>254,828</b>	<b>259,731</b>
<b>1 (Increase) / Decrease in funding</b>		<b>(11,143)</b>	<b>(4,583)</b>	<b>(4,903)</b>
<b>2 Add: Inflation</b>		<b>7,614</b>	<b>7,266</b>	<b>7,510</b>
Unavoidable Commitments:				
Demography		1,000	500	500
Capital Financing		259	187	175
Teachers' pension		1,205	0	0
Non Teachers' pension		(2,210)	0	0
Fire Service Levy		97	100	100
Social Care - NW Prison		250	0	0
Environment - transport related pressures		550	0	0
Highways Maintenance		1,000	0	0
Children and Young People Services		1,500	0	0
Free School Meals		200	0	0
Advice Services		80	0	0
Decarbonisation agenda - introduction of an Active Travel post		40	0	0
ICT - staffing and software/hardware requirements		400	0	0
Street Cleaning		200	0	0
Repairs & Maintenance		520	0	0
Reduction Sustainable Waste grant		74	0	0
<b>3 Total Unavoidable Commitments</b>		<b>5,165</b>	<b>787</b>	<b>775</b>
<b>4 Net Budget Pressures (1+2+3)</b>		<b>1,636</b>	<b>3,470</b>	<b>3,382</b>
<b>5 Less: Budget Changes / Cuts</b>		<b>(1,636)</b>	<b>(792)</b>	<b>0</b>
<b>6 Budget Shortfall after cuts identified(4+5)</b>		<b>0</b>	<b>2,678</b>	<b>3,382</b>
# Adjusted for grants transferred into RSG in 2020/21				

8.6 Fel mewn blynyddoedd blaenorol, dim ond rhan o'r ffactorau ariannol sydd angen eu hymgorffori yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yw'r newid yng nghyllid y llywodraeth.

## Tybiaethau Ariannol

	<b>2020/21</b>	<b>2021/22</b>	<b>2022/23</b>
Grant	3.50%	0%	0%
Cynnydd yn Nhreth y Cyngor	6.95%	6.95%	6.95%
Chwyddiant – Cyflog Athrawon	2.75%	2.50%	2.50%
Cyflog Staff nad ydynt yn Athrawon	2.50%	2.50%	2.50%
PFI, Darparwyr Gofal Cymdeithasol	3.0%	3.0%	3.0%
Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor	6.95%	6.95%	6.95%
Cyffredinol	2%	2%	2%

8.7 Nid yw'r Cyngor wedi'i ddiogelu rhag effaith pwysau chwyddiant cyffredinol eraill yn y sector preifat, sy'n cael eu pasio ymlaen gan gontractwyr allanol. Felly mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn tybio cynnydd cyffredinol o rhwng 2% yn ystod cyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, mae hyn yn unol â thargedau'r Llywodraeth.

## **9. Cwrdd â'r Her Ariannol**

9.1 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo gael gweledigaeth glir o ran ei rôl, yr hyn y gall ei gyflawni gydag adnoddau cyfyngedig, sut y mae'n gweithio ag eraill mewn modd cydweithredol, a sut i fynd i'r afael â chynllun cyllideb 2020/23, er mwyn parhau i gyflawn darpariaeth gref o ran gwasanaethau a rheolaeth ariannol. Hyd yn oed gyda'r elfennau hyn ar waith, mae angen gwneud penderfyniadau anodd o ran pa wasanaethau y mae'n rhaid eu hatal neu eu lleihau. Mae'n amhosibl peidio ag atal darpariaeth gwasanaethau pan fo'r gyllideb wedi gostwng cymaint mewn termau real.

9.2 Dechreuodd gwaith ar gynllun y gyllideb yn fuan i gyflawni cyllideb ar gyfer Ebrill 2020. Roedd hyn yn gofyn am ymagwedd gytbwys i gyflawni'r gwaith o gyflenwi gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor, gan sicrhau bod gwasanaethau allweddol yn parhau i fod yn gynaliadwy, ynghyd â'r gallu i fantoli'r gyllideb:

- a) Dadlau dros ragor o adnoddau o lywodraethau cenedlaethol: fel gofyniad lleiaf, nid yw ond yn deg i godiadau cyflog a phwysau ychwanegol sy'n cael ei greu gan ddeddfwriaeth genedlaethol newydd gael eu cyllido'n llawn - nid felly'n ddiweddar, gyda chodiadau tâl a phensiwn cenedlaethol yn gorfod cael eu hariannu'n rhannol gan lywodraeth leol, a deddfwriaeth genedlaethol sydd wedi'i chynllunio, fel hynny yng nghyswllt Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn annhebygol o dderbyn arian i weithredu'r newidiadau.
- b) Ystyried codiadau treth y cyngor yn ofalus: Mae cyfradd Band D treth y cyngor yn Wrecsam yn isel iawn. Mae'r Cyngor yn cydnabod effaith codiadau treth y cyngor ar bobl leol a bydd angen cydbwysu hyn gyda'r effeithiau posibl ar wasanaethau os na wneir cynnydd.
- c) Atal/torri gwasanaethau a lleihau lefelau gwasanaeth: Mewn meysydd nad ydynt yn flaenoriaeth, bydd angen atal neu leihau

gwasanaethau i gyflawni'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau yn Ebrill 2020. Bydd hyn yn effeithio ar wasanaethau dewisol a gorfodol. Nid yw ein hymagwedd o ran y gyllideb yn ymwneud mwyach ag ail-lunio gwasanaethau'n unig - mae ein gwasanaethau'n cael eu hail-lunio'n barhaus, mae'n ymwneud ag ail-flaenoriaethu gwasanaethau i sicrhau bod gwasanaeth sy'n flaenoriaeth ac yn hanfodol, yn gynaliadwy ac yn wydn.

- d) Gwneud arbedion effeithlonrwydd o ran y modd yr ydym yn cyflenwi gwasanaethau: Gwnaed y mwyafrif o arbedion y flwyddyn flaenorol yn ffurf arbedion effeithlonrwydd, felly dim ond ychydig sydd ar ôl i'w gwneud yn y maes hwn, ond byddwn yn parhau i weithio'n galed i'w canfod a'u cyflawni.
- e) Gweithio gyda phartneriaid a chymunedau mewn modd cydweithredol: Mewn ardaloedd lle mae gwasanaethau mewn perygl, mae angen darparu rhybudd cynnar er mwyn cyflawni gwaith gyda phartneriaid, awdurdodau lleol a chymunedau lleol i weld pa ddarpariaeth amgen sy'n bosibl ar gyfer cynnal gwasanaethau pwysig.

9.3 Mabwysiadwyd ymagwedd ddarbodus a rhannwyd y broses yn ddau gyfnod. Roedd Cyfnod 1 yn canolbwyntio ar benderfyniadau y gellid eu gwneud cyn toriad yr haf. Roedd Cyfnod 2 yn cynnwys penderfyniadau y gellid eu gwneud yn ystod yr hydref, yn dilyn cyhoeddi'r Setliad Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol Dros Dro ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21.

9.4 Bu Prif Swyddogion yn adolygu eu gwasanaethau i ganfod meysydd gwasanaeth y gellir eu lleihau neu dorri. Mae cynigion wedi'u nodi a'u categorio fel a ganlyn:

<b>Math / Amseriad</b>		
<b>Math 1 Cyn yr haf</b>	<b>Math 2 yn yr hydref</b>	<b>Math 3</b>
Bwrw ymlaen gyda gweithredu cynlluniau o dan awdurdod dirprwyedig	Bwrw ymlaen gyda rhagor o ymgysylltu ar gyfer dylunio'r datrysiad	Dychwelyd yn yr hydref gyda manylion
Eisoes wedi ymgymryd ag ymgynghoriad allanol	Angen ymgynghori ac ymgysylltu	Angen ymgynghori ac ymgysylltu
Gall fod angen ymgynghori â staff	Gall fod angen ymgynghori â staff	Gall fod angen ymgynghori â staff
e.e. Cynhyrchu incwm yn unol â Pholisi Adennill Costau Llawn presennol y Cyngor neu eisoes yn y broses o wneud hynny / gostyngiad wedi'i gynllunio, wedi'i ragweld, mewn galw.	e.e. Newid arfaethedig yn y model cyflenwi	

9.5 Mae cyllideb 2020/21 yn cynnwys cynigion o ran toriadau cyllideb sy'n dod i gyfanswm o £1,636k, a ddsbarthir fel Math 1 (£1,366k) a Math 2 (£270k). Wedi'u cynnwys yng nghynllun y gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 ceir cynigion o ran toriadau cyllideb sy'n dod i gyfanswm o £792k, a ddsbarthir fel Math 1 (£575k) a Math 2 (£217k).

## **10. Penderfyniadau Anodd 2020/21 a 2021/22 – Ymgynghoriad ar y Gyllideb**

- 10.1 Mae'r her ariannol yn cynyddu'r angen i gynnwys dinasyddion, i gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o'r rhesymeg dros newid a pham mae angen gwneud penderfyniadau anodd. Trwy gyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu clir, gallwn helpu i reoli disgwyliadau'r cyhoedd, yn ogystal â deall eu barn ar y ffordd ymlaen, fel y gallant ddylanwadu ar siâp gwasanaeth lleol i'r dyfodol.
- 10.2 Aeth yr ymgynghoriad ar y gyllideb gyhoeddus yn fyw ar 4 Hydref 2019 am chwe wythnos, a daeth i ben ar 13 Tachwedd 2019. Pwrpas yr ymarfer ymgynghori ar y gyllideb ar gyfer 2019/21 oedd:
- Cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o raddfa'r her ariannol a pham mae angen gwneud penderfyniadau anodd
  - Cynyddu gwybodaeth gyhoeddus am y newidiadau arfaethedig sy'n cael eu hystyried
  - Deall barn pobl ar gynigion y gyllideb ar gyfer blynyddoedd ariannol 2020/21 a 2021/22, er mwyn ystyried y safbwyntiau hyn wrth wneud penderfyniadau terfynol.
- 10.3 Mae'r holl ymatebion a dderbyniwyd wedi'u coladu ynghyd â'u dadansoddi, ac wedi'u cyflwyno i Aelodau'r Cyngor er mwyn iddynt eu hystyried cyn gwneud eu penderfyniadau terfynol ar gyllideb y flwyddyn nesaf. Cyflwynwyd canfyddiadau'r ymgynghoriad i'r holl Aelodau mewn gweithdy ar 5 Rhagfyr 2019, ac amlinellir adroddiad manwl ar y canfyddiadau yn Atodiad 7.

## **11 Cyfalaf**

- 11.1 Er gwaethaf yr heriau ariannol a'r cyfyngiadau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, mae wedi ymrwmo i fuddsoddi yn y dyfodol. Mae'r rhaglen gyfalaf yn nodi cynlluniau'r Cyngor o ran buddsoddiad cyfalaf, gyda'r rhaglen ddiweddaraf a gymeradwywyd yn darparu ar gyfer y cyfnod rhwng blynyddoedd ariannol 2019/20 a 2023/24. Mae'r defnydd effeithiol o adnoddau cyfalaf, gan gynnwys rheoli asedau, yn hanfodol er mwyn i'r Cyngor gyflawni ei amcanion strategol tymor canolig a thymor hir.
- 11.2 Bydd gan unrhyw benderfyniadau yng nghyswllt buddsoddiad cyfalaf oblygiadau ar gyfer y gyllideb refeniw. Mae costau refeniw dros oes bob prosiect cyfalaf arfaethedig yn cael eu hystyried wrth ddatblygu prosiect, i sicrhau y gellir ymgorffori'r effaith o fewn cynlluniau ariannol y Cyngor ac er mwyn dangos bod y buddsoddiad cyfalaf yn fforddiadwy.
- 11.3 Amlinellir Strategaeth Gyfalaf y Cyngor yn Atodiad 5.

## **12 Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor**

- 12.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal cronfeydd wrth gefn digonol i ddiwallu anghenion y sefydliad. Mae Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor yn nodi sut y bydd y Cyngor yn penderfynu ac yn adolygu lefelau'r cronfeydd wrth gefn. Amlinellir y Strategaeth Cronfeydd wrth Gefn yn yr atodiad a ganlyn.

# STRATEGAETH CRONFEYDD WRTH GEFN 2020/21

## Cefndir

1. Cydnabyddir yr angen am arian wrth gefn mewn statud. Mae Adrannau 32 a 43 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn gofyn bod awdurdodau lleol yn rhoi sylw i'r lefel angenrheidiol o arian wrth gefn er mwyn cwrdd â'r gwariant a amcangyfrifir wrth gyfrifo gofyn y gyllideb.
2. Mae mesurau diogelu eraill ar waith er mwyn helpu i rwystro awdurdodau lleol rhag ymrwymo eu hunain yn ormodol yn ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys:
  - Gofyn cyllideb gytbwys (Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 – adran 32 a 43).
  - Dyletswydd y Prif Swyddog Cyllid a TGCh i adrodd ynglŷn â chadernid amcangyfrifon ac a yw'r cronfeydd wrth gefn yn ddigon (Deddf Llywodraeth Leol 2003 – adran 25) pan fo'r Cyngor yn ystyried gofyn y gyllideb.
  - Gofyn deddfwriaethol i'r Cyngor drefnu gweinyddiaeth briodol ar gyfer ei faterion ariannol a bod cyfrifoldeb dros weinyddu'r materion hynny gan y Prif Swyddog Cyllid a TGCh (Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, Adran 151).
  - Gofynion Cod Darbodus y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth – mae'r cod yn gofyn i'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh roi sylw llawn i fforddiadwyedd wrth wneud argymhellion ynglŷn â Rhaglen Gyfalaf y Cyngor. Mae ystyriaethau o'r fath yn cynnwys lefel yr ymrwymadau refeniw hir dymor. Wrth ystyried fforddiadwyedd cynlluniau cyfalaf y Cyngor, mae gofyn i'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh ystyried yr holl adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor, sydd wedi'u hamcangyfrif ar gyfer y dyfodol, ynghyd â chyfanrwydd ei gynlluniau cyfalaf a'i ragolygon refeniw ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a'r ddwy flynedd ganlynol. Mae gofyn am ragolygon refeniw tair blynedd ledled y sector gyhoeddus, a chyflawnir hyn drwy'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.
  - Bydd Swyddfa Archwilio Cymru'n ystyried a yw'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau digonol i sicrhau bod sail gref i sefyllfa ariannol y Cyngor ai peidio.
3. Atgyfnerthir y gofynion hyn gan adran 114 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1998, sy'n gofyn i'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh roi gwybod am debygolrwydd gwariant anghyfreithlon neu gyllideb anghybtwys. Byddai hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle mae cronfeydd wrth gefn wedi dod yn brin iawn a bod rhagolygon na fydd gan y Cyngor adnoddau i gwrdd â'i wariant mewn blwyddyn ariannol benodol.

## Yr Hinsawdd Ariannol Bresennol

4. Mae'r pwysau sydd ar arian cyhoeddus ar hyn o bryd ac yn y tymor canolig yn aruthrol. O ganlyniad, mae cronni arian wrth gefn ar gyfer digwyddiadau ac amgylchiadau na ellir eu rhagweld yn anodd yn ogystal â bod yn rhywbeth sydd angen ystyriaeth ofalus.
5. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn enwi'r risgiau sydd o arbed y symiau angenrheidiol o arian wrth gefn i sicrhau cyllidebau cytbwys dros y blynyddoedd nesaf. Bydd gweithio'n benodol gyda gostyngiadau pellach mewn arian grant, a cheisio cadw cynnydd yn nhreth y cyngor ar lefel resymol yn golygu y bydd angen rheoli cronfeydd wrth gefn yn effeithiol.

## Mathau o Gronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio

6. Wrth adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a pharatoi cyllideb flynyddol y Cyngor, mae angen i'r Cyngor ystyried sefydlu a chynnal cronfeydd arian wrth gefn wedi'u cefnogi ag adnoddau. Mae'r Cyngor yn cynnal arian wrth gefn i ddiogelu yn erbyn risg, sicrhau bod darpariaeth ar gael ar gyfer digwyddiadau annisgwyl, ac i gefnogi buddsoddiad mewn prosiectau yn y dyfodol sydd o fudd i'r Fwrdeistref Sirol. Mae'r Cyngor yn rheoli risg trwy asesu effeithiau posibl digwyddiadau'r dyfodol, wedi'u seilio ar ba mor debygol ydynt o ddigwydd a difrifoldeb unrhyw effaith. Yna, cymerir camau lliniaru er mwyn lleihau'r effaith a rhoddir cynlluniau priodol ar waith.
7. Ar 31 Mawrth 2019, roedd gan y Cyngor y cronfeydd canlynol o arian wrth gefn i'w defnyddio:

	31/03/14 £'000	31/03/15 £'000	31/03/16 £'000	31/03/17 £'000	31/03/18 £'000	31/03/19 £'000
Balans y Gronfa Gyffredinol	7,018	7,018	7,018	7,018	7,018	7,018
Balansau Cyfrif Refeniw Tai	7,932	7,860	6,435	6,001	5,030	5,024
Cronfeydd Wrth Gefn y Gronfa Gyffredinol Wedi'u Clustnodi	18,064	20,546	21,801	17,857	18,836	21,926
Cronfeydd Wrth Gefn y Cyfrif Refeniw Tai Wedi'u Clustnodi	5,026	1,421	0	0	0	0
Derbyniadau Cyfalaf	15,036	15,083	14,468	11,935	13,082	17,446
Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso	1,225	1,459	802	744	569	2,586
<b>Cyfanswm</b>	<b>54,301</b>	<b>53,387</b>	<b>50,524</b>	<b>43,555</b>	<b>44,535</b>	<b>54,000</b>

### Balans y Gronfa Gyffredinol

8. Diben y gronfa wrth gefn hon yw darparu ar gyfer unrhyw wariant annisgwyl nad oes modd ei reoli yn defnyddio'r cyllidebau presennol. Byddai gwariant o'r fath yn wariant un-tro o ganlyniad i ddigwyddiad anghyffredin. Dylid gosod cronfa wrth gefn gyffredinol ar lefel synhwyrol ond nid yn ormodol felly, gan y gall dal lefelau uchel o arian wrth gefn effeithio ar adnoddau a pherfformiad. Yn y gorffennol, mae wedi'i gynnal ar lefel o amgylch 5% o gyllideb net y Cyngor (heb gynnwys ysgolion). Mae Atodiad 1 yn manylu ar yr elfennau sy'n ffurfio balans y Gronfa Gyffredinol a lefelau'r risgiau sydd ynghlwm â phob un o'r elfennau hyn. Mae'r rhain yn ddangosol ac efallai nad fyddent yn gynhwysfawr wrth i risgiau newydd ddod i'r amlwg.

	2014/15 £'000	2015/16 £'000	2016/17 £'000	2017/18 £'000	2018/19 £'000	2019/20 £'000	2020/21 £'000
Cyllideb net (heb gynnwys ysgolion)	150,604	146,144	45,802	145,675	152,231	153,357	161,263
Balans y Gronfa Gyffredinol fel % o'r gyllideb net	4.66%	4.80%	4.81%	4.82%	4.61%	4.58%	4.35%

### Balans y Cyfrif Refeniw Tai

9. Mae'r rhain yn cynrychioli cronfeydd a glustnodwyd i'w defnyddio ar stoc dai'r Cyngor ei hun. Mae Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai wedi'i ddatblygu ar sail bod lleiafrif balans o £5m o gyfanswm gwariant y Cyfrif Refeniw Tai yn cael ei gadw i liniaru yn erbyn risg.

### Cronfeydd wrth Gefn y Gronfa Gyffredinol wedi'u clustnodi

10. Yn wahanol i falans y gronfa gyffredinol, mae cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd wedi cael eu neilltuo ar gyfer ardaloedd gwariant penodol lle ceir costau sydd wedi'u rhagweld na ellir ond eu hamcangyfrif. Mae'n rhaid i wariant sy'n gysylltiedig â chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd fod yn benodol gysylltiedig â diben y gronfa wrth gefn. Gweler Atodiad 2 sy'n ddarn o Ddatganiad Cyfrifon 2018/19 y Cyngor ac sy'n rhestru cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd gan y Cyngor.

### Derbyniadau Cyfalaf

11. Mae'r gronfa wrth gefn hon yn dal elw o werthu tir neu asedau eraill, y'u rhwystrwyd drwy statud rhag cael eu defnyddio, ar wahân i ar gyfer ariannu gwariant cyfalaf newydd neu i'w neilltuo i ad-dalu dyled. Yn ôl yr adroddiad diweddaraf ar y Rhaglen Gyfalaf, bydd angen tua £13.3m o gyllid derbyniadau cyfalaf o 2019/20 ymlaen.

### Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwysu

12. Mae hwn yn dal y grantiau a'r cyfraniadau a dderbyniwyd tuag at brosiectau cyfalaf, y mae'r Cyngor wedi cwrdd â'u hamodau, ond heb gwrdd â'r gwariant cyfalaf eto.

## **Gweithdrefn Defnyddio Cronfeydd wrth Gefn**

13. Rhaid derbyn cymeradwyaeth y Bwrdd Gweithredol a/neu'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh cyn sefydlu unrhyw gronfa wrth gefn, a dylai bod rheswm penodol a phriodol dros greu cronfa o'r fath.
14. Mae system gyllidebu arian cyfyngedig y Cyngor yn cynnwys darpariaeth ar gyfer "trefniadau dwyn ymlaen" ar ddiwedd y flwyddyn. Yn amodol ar gymeradwyaeth aelodau'r Bwrdd Gweithredol, gall gwasanaeth neu adran sy'n tanwario eu cyllideb arian cyfyngedig, fel arfer, ddwyn y tanwariant ymlaen, hyd at uchafswm o 5% o gyllideb arian cyfyngedig yr adran, i'r flwyddyn ganlynol..
15. Unwaith yn unig y gellir defnyddio cronfeydd wrth gefn, ac felly ni ddylid eu cynnal i ariannu gwariant sy'n parhau.
16. O fewn y broses gyllidebol flynyddol, bydd y Prif Swyddog Cyllid ac TGCh yn ystyried ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor, o ran a oes angen cynnwys cyfraniad tuag at falans y gronfa gyffredinol neu unrhyw gronfa wrth gefn a glustnodwyd.

## **Monitro**

17. Rhoddir gwybod i aelodau am ddefnydd cronfeydd wrth gefn pob deufis, fel rhan o weithdrefnau Monitro Cyllid y Cyngor.



18. Yn ystod yr Hydref ac fel rhan o Weithdy Cyllideb i'r holl Aelodau, adolygir cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn flynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y Cyngor ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Fel rhan o'r adolygiad, mae aelodau'n ystyried y canlynol ar gyfer pob cronfa wrth gefn a glustnodwyd:

- y rheswm dros gael / diben y gronfa wrth gefn
- sut a pha bryd y gellir defnyddio'r gronfa wrth gefn
- ei pherthnasedd ac a yw'n ddigonol

19. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cymeradwyo unrhyw drosglwyddiadau i neu o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

### **Dadansoddi Risg**

20. Bydd unrhyw argymhelliad sy'n newid defnydd bwriadol y cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad Cyllideb Refeniw blynyddol yn ystyried anghenion y gwasanaeth yn erbyn yr angen i gadw lefelau cronfeydd wrth gefn darbodus. Mae peryglon sylweddol sy'n effeithio ar lefel y cronfeydd wrth gefn i'w cynnal, a'r mathau o beryglon sydd wedi cael eu hystyried, ond sydd hefyd i gael eu cadw dan arolwg, yw:

- Y bwlch cyllid yn y dyfodol – perygl, oherwydd amgylchiadau economaidd, ei bod yn debygol y bydd gostyngiadau gwirioneddol pellach mewn lefelau grant cynnal refeniw a gostyngiadau mewn grantiau penodol.
- Gostyngiadau mewn derbyniadau cyfalaf ac incwm yn ymwneud â chynllunio.
- Cynnydd mewn galw ar wasanaethau a all arwain at orwario adrannol.
- Incwm is na'r disgwyl.
- Colledion heb eu hyswirio gan ddigwyddiadau y mae'n anodd eu darogan – er enghraifft: stormydd, llifogydd, terfysgaeth. Nid yw cymorth o dan y cynllun Cymorth Ariannol Brys ond yn daladwy pan fo gwariant yn fwy na throthwy o 0.2% o ofyn y gyllideb ac ni fydd ond yn ariannu 85% o wariant brys dros y trothwy.
- Atebolrwydd cyfreithiol heb ei yswirio – e.e. hawliadau anafiadau personol.
- Methiant o ran darparu arbedion wedi'u cynllunio.
- Ailstrwythuro Sefydliadol – er enghraifft, costau diswyddo a phensiynau.
- Costau cytundebau tymor hir – er enghraifft, rheoli gwastraff.
- Atgyweirio neu amnewid asedau – er enghraifft, adeiladau.

### **Casgliad**

21. Nid yw lefelau cronfeydd wrth gefn cyfredol y Cyngor yn ormodol, yn enwedig o'u cymharu â lefel gyfartalog y cronfeydd wrth gefn y mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn eu cynnal. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi data awdurdodau lleol ar lefelau cronfeydd wrth gefn, a gellir eu gweld drwy'r ddolen gyswllt a ganlyn:

<https://gov.wales/local-authority-reserves-31-march-2018>

22. Mae cronfeydd wrth gefn y Cyngor a glustnodwyd wedi cynyddu yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf wrth i'r Cyngor fynd trwy broses o newid a phryd cafwyd tanwario yn y gyllideb. Mae rheoli'r gyllideb yn llymach yn golygu nad yw tanwario ar y lefel yma'n debygol ac mae'r perygl o orwario yn erbyn y gyllideb yn dod yn fwy o risg i'r Cyngor.

23. Gall fod newidiadau yn ystod y flwyddyn yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a fydd yn effeithio ar y strategaeth hon. Bydd newidiadau o'r fath yn cael eu monitro gan y Prif Swyddog Cyllid a TGCh a'u hadrodd wrth y Bwrdd Gweithredol.

ATODIAD 1

Risg Allweddol	Effaith	Tebygolrwydd	Rheoli'r Risg	Lleiafswm £k	Lleiafswm £k	Angenrheidiol £k
Digwyddiad mawr a/neu hawliadau – gwariant heb ei gyllidebu	Disgwyl i'r Cyngor ariannu gwariant hyd at 0.2% o ofyn y gyllideb a 15% o wariant cymwys dros y trothwy o 0.2%.	Un digwyddiad hyd at 0.2% o'r gyllideb net – Isel i Sylweddol Un digwyddiad yn creu cyfanswm dros 0.2% o'r gyllideb net – Isel lawn		505	1,188	1,188
Methiant Cydbarti	Gall partïon fethu talu symiau yn ôl i'r Cyngor a thrwy hynny effeithio ar gyllideb referiw	Sylweddol	Yn unol â'r Strategaeth TM, ni delir blaendaliadau ond i sefydliadau gyda statws credyd A- ar y lleiaf, a dim mwy na £3m i bob sefydliad a dim yn hwy na 6 mis.	1,000	3,000	3,000
Methu â chyflawni arbedion a gynlluniwyd, mwy o alw am wasanaethau a gostyngiad posibl mewn grantiau penodol	Gorwario yn ystod y flwyddyn	Sylweddol  Sylweddol  Uchel	Yn rhan o'r broses o lunio cyllideb bob blwyddyn, cynnal asesiad risg o gyflawni'r arbedion a gynlluniwyd. Fodd bynnag, nodwyd y canlynol fel materion risg uchel:  a) Newid i arferion gwaith a darparu gwasanaeth. b) Cynyddu a chyflwyno taliadau yn unol â'r polisi adennill costau c) Effaith mwy o alw am wasanaethau a gostyngiad mewn grantiau penodol		739  732	739  732
			<b>CYFANSWM</b>	<b>2,505</b>	<b>7,659</b>	<b>7,159</b>

	2017/18				IFRS 9 Adj.	2018/19			
	Balance at	Transfers	Transfers	Balance at		Balance at	Transfers	Transfers	Balance at
	01/04/2017	Out	In	31/03/2018		01/04/2018	Out	In	31/03/2019
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	
General Fund:									
Balances held by schools	1,642	(653)	1,023	2,012	0	2,012	(836)	645	1,821
Service Reserves	1,135	(357)	276	1,054	0	1,054	0	307	1,361
Insurance Reserve	2,419	0	220	2,639	0	2,639	0	250	2,889
Legal Liabilities Reserve	1,251	(178)	0	1,073	0	1,073	(19)	0	1,054
Winter Maintenance Reserve	300	(295)	345	350	0	350	(105)	105	350
Early Voluntary Retirement	94	0	0	94	0	94	0	0	94
Transitional EVR Reserve	1,349	0	0	1,349	0	1,349	0	0	1,349
Reshaping Services Reserve	815	(29)	0	786	0	786	(32)	0	754
Invest To Save Reserve	136	0	259	395	0	395	0	75	470
Capital Reserve	2,637	(103)	183	2,717	0	2,717	(95)	104	2,726
Repairs&Maintenance	150	(50)	0	100	0	100	(90)	0	10
ITeC Reserve	360	(154)	0	206	0	206	(206)	154	154
IT Development	42	0	0	42	0	42	0	0	42
Customer Access	15	0	0	15	0	15	0	0	15
Local Development Plan	203	(29)	0	174	0	174	0	0	174
Carbon Emission Reserve	302	(5)	296	593	0	593	(73)	4	524
Cremation Plant Replacement	23	0	0	23	0	23	0	0	23
Section 278 Reserve	328	0	0	328	0	328	0	136	464
NW Regional Transformation	109	(109)	0	0	0	0	0	0	0
Financial Instruments Reserve	0	0	0	0	3,139	3,139	(1)	0	3,138
Miscellaneous	45	0	1	46	0	46	0	4	50
Grant Reserves	4,502	(548)	886	4,840	0	4,840	(1,916)	1,540	4,464
<b>Total</b>	<b>17,857</b>	<b>(2,510)</b>	<b>3,489</b>	<b>18,836</b>	<b>3,139</b>	<b>21,975</b>	<b>(3,373)</b>	<b>3,324</b>	<b>21,926</b>

**Service Reserves** - represents service underspends as part of the Council's carry forward arrangements for use in subsequent years.

**Insurance Reserve** - the reserve is held to fund any future liabilities such as MMI (see notes 33 and 34 Notes to the Accounts) and claims that exceed budget.

**Legal Liabilities Reserve** - amount set aside to provide for any future legal liabilities.

**Winter Maintenance Reserve** - amount set aside to cover costs due to unforeseen adverse weather conditions.

**Early Voluntary Retirement & Transitional EVR Reserve** - to fund early retirements and redundancy costs following reshaping services.

**Reshaping Services Reserve** - an amount set aside to aid the transformation process to realise future savings for the Council.

**Invest To Save Reserve** - provision for the investment in various plans to realise permanent financial savings.

**Capital Reserve** - represents resources already committed to finance part of the Council's five year Non-HRA Capital Programme.

**Repairs and Maintenance Reserve** - to respond to future uneven expenditure patterns.

**ITeC Reserve** - ITeC provides information technology training for the benefit of the local economy and the reserve has been established to respond to future uneven expenditure patterns.

**IT Development & Customer Access** - to fund various IT enhancements and Self Service ICT development.

**Local Development Plan (LDP) Reserve** - to fund costs associated with the adoption of the LDP.

**Carbon Emission Reserve** - to partly fund the carbon reduction plan programme of works to reduce carbon emissions.

**Cremation Plant Replacement Reserve** - to partly fund the cost of mercury abatement.

**Section 278 Reserve** - represents income from contractors which have no conditions attached but which have been set aside to fund various infrastructure projects.

**North Wales Regional Transformation** - represents underspend on contribution made to fund North Wales Regional projects carried forward for use in subsequent years.

**Financial Instruments Reserve** - the reserve has been created as a consequence of a temporary gain recognised in the CI&ES following a change in the calculation of the carrying amount of the Council's modified loans as at 1 April 2018, as required by IFRS 9. The reserve will be used to neutralise the impact of higher effective interest charges to the CI&ES over the remaining life of the loans - see note 28 Notes to the Accounts

**Miscellaneous** - to meet a variety of other commitments including crematorium donations and school brass band.

**Grant Reserves** - represent income from Government grants received which have no conditions attached but which have been set aside for use in the provision of specific services.